

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Elwyn Davies (Llansannan) yr wythnos hon. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Beryl a'r plant a gweddill y teulu yn eu colled fawr. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Anfonwn ein cofion at bawb arall o'r ofalaeth – heddiw a thros gyfnod y Nadolig – ac yn arbennig felly y rhai ohonoch sydd heb fod yn dda eich hiechyd ar hyn o bryd. Cofiwn yn arbennig am Gwilym H. Davies (Nantglyn) sy'n cael gofal yn Ysbyty Maelor, fel ag y mae Iorwen Roberts (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd a Dilys Jones (Nantglyn) yn yr Inffirmari. Hyderwn eich bod chi'n profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen ac y cewch adferiad iechyd buan iawn. Cofiwn yn ein gweddïau hefyd y rhai hynny sy'n disgwyl gwahanol driniaethau, yn ogystal â'n cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Williams (Llansannan); Mrs Edna Evans (Llanfair); a Mrs Dilys Vaughan a Mrs Gwen Evans (Saron). Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch.

Llongyfarchiadau i Arwyn a Sian Jones (Nantglyn) ar enedigaeth merch, chwaer fach i Magi ac Anni. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau hefyd i Clwyd Rogers (Llanefydd) fydd yn dathlu penblwydd arbennig cyn diwedd y flwyddyn!

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gofal Dydd Waengoleugoed

Y Nadolig hwn, rydym am eich gwahodd i gyfrannu tuag at waith Canolfan Gofal Dydd Waengoleugoed. Mae amryw o aelodau'r Ofalaeth a'r gymuned yn ehangach yn derbyn gofal a chefnogaeth amhrisiadwy yno. Os hoffech gyfrannu, gallwch wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon sic i Mair, **cyn diwedd Ionawr, os gwelwch yn dda**, yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Gofal Dydd Waengoleugoed' wedi ei ysgrifennu ar y cefn. Diolchwn am y gwasanaeth arbennig hwn ac am eich cefnogaeth chithau.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Bryn Goleu, Llansannan, DINBYCH LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (29^{ain}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 12 Rhagfyr 2021 - 2 Ionawr 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn, tybed beth fydd yn aros yn y cof i chi am 2021? Fydd hi'n flwyddyn sy'n cynnwys carreg filltir nodedig, neu'n un i'w hanghofio oherwydd effeithiau'r pandemig? Dwi'n siŵr y bydd nifer yn teimlo elfen o *déjà vu* gan ddweud ei bod hi'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng 2020 a 2021, ond ni fydd hynny'n wir yn achos y rhai a ddiodefodd neu a wynebodd brofedigaeth yn ystod y cyfnod. Gyda chynifer o ffigyrau yn cael eu crybwyll ar y newyddion o ddydd i ddydd, byddai'n hawdd colli golwg ar y ffaith fod pob haint a phob marwolaeth o bwys. Nid yw ffigyrau moel yn gallu cyfleu hynny, ond gyda phob achos unigol mae teuluoedd a chyfeillion niferus yn cael eu heffeithio'n enfawr. Yr ofn yw bod hynny'n mynd yn angof gan wleidyddion ac arweinwyr sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan. Dyna'n union a amlygwyd gyda dichter yr wythnos diwethaf bod rhai mewn grym yn ymddangos fel nad oeddynt yn ystyried dioddefaint eraill wrth iddynt bartio yn Rhif 10 Stryd Downing y llynedd.

Ond wrth i ni feddwl am y ffordd y mae'r Arglwydd yn gweithredu, gwelwn arweinyddiaeth a gofal o fath tra gwahanol. Sylwch beth ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion yn Luc 12:6-7, 'Eto nid yw un ohonynt yn angof gan Dduw. Yn wir, y mae hyd yn oed pob blewyn o wallt eich pen wedi ei rifo. Peidiwch ag ofni; yr ydych yn werth mwy na llawer o adar y to.'

Yn hytrach na chael ein diystyru, a bod yn un ffigwr di-nod ymhlith miloedd, mae geiriau Crist yn ein hatgoffa o ofal rhyfeddol o bersonol Duw. Ac mae hanes geni Iesu yn brawf o hynny. Nid anwybyddu ein cyflwr a wnaeth Creawdwr nefoedd a daear, na gorchymyn o bellteroedd fod angen i rywun arall wneud rhywbeth am y sefyllfa! Fel y dywed y garol enwog:

*O ddyfnder rhyfeddod, fe drefnodd y Duwdod
dragwyddol gyfamod i fyw:
daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
er symud ein penyd a'n pwn.*

Gan i'r Mab tragwyddol gael ei eni yn un ohonom ym Methlehem, gall gydymdeimlo'n llwyr â ni yn ein holl wendidau. Daeth brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd o'i wirfodd ac i bwrpas arbennig. A thrwy Ei fywyd, Ei farwolaeth, a'i atgyfodiad, sicrhaodd gysur a bywyd tragwyddol i bob pechadur anghenus sy'n troi ato mewn ffydd. Am Frenin cariadus!

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Rhagfyr 12fed

- Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00.

OEDFA NADOLIGAIDD BRO ALED

*Nos Sul, Rhagfyr 12fed
yn Llansannan
am 5:00 yr hwyr*

Cyfle i ganu carolau hefo'n gilydd ac i wrando ar y Gair. Oherwydd y bydd rhaid cyfyngu ar y nifer all fod yn bresennol, cysylltwch â Mair (01745 870632 / 07900 627536 / mair@eglwysibroaled.com) erbyn nos Wener (10fed) i sicrhau lle. Casgliad at Ganolfan Gofal Dydd Waengoleugoed, Gobeithiwn fedru darlledu'r oedfa'n fyw ar y we (ewch i [wefan eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) i ymuno), ond petai hynny ddim yn bosib, bwriadwn recordio'r gwasanaeth a'i ddarlledu mor fuan ag y bydd hynny'n bosib ar ôl yr oedfa. Bydd hefyd modd i unrhyw fydd wedi methu ymuno gael DVD neu CD o'r gwasanaeth. Cysylltwch â Mair i gael copi. DISGWYLIR I BAWB FYDD YN BRESENNOL WNEUD POB YMDRECH POSIB RHAG LLEDAENU COVID.



Nos Lun, Rhagfyr 13^{eg} a Dydd Gwener, Rhagfyr 17^{eg}

- **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – y sesiwn olaf mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar y nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar y prynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Dydd Sul, Rhagfyr 19eg

- **Gwasanaeth Nadolig y plant a'r oedolion yn Llansannan am 10:00.**
- **Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10:30.**
- **Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11:00.** Bydd y casgliad er budd Cymorth Cristnogol.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Llanefydd am 10:00.**
- **Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10:00.** (Ni fydd angen enwau ymlaen llaw.)
- **Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10:30.**
- **Gwasanaeth Nadolig yn Henllan am 2:00.** Gwneir casgliad arbennig tuag at Shelter Cymru.
- **Llith a Charol yn Saron am 10:00.** Gwneir casgliad er budd Canolfan Gofal Dydd Waengoleugoed.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 2:00.**

Bore Nadolig, Rhagfyr 25ain



Dydd Sul, Rhagfyr 26ain

- Ni fydd oedfa heddiw.

Dydd Sul, Ionawr 2il

- **Oedfa o dan arweiniad Rhodri** yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00.
- **Oedfa Thema** yn Henllan am 9:30.
- **Cyfarfod Gweddi** yn Llanefydd am 10:00, yng Nghefn Berain am 10:00, ac yn Groes am 10:00.
- **Oedfa o dan arweiniad Celfyn Williams** yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00.

Y Rhifyn Nesaf

Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 2^{il}**.

